POST OFFICE HORIZON IT INQUIRY

# ARGYMHELLION

1. Rhaid i Lywodraeth EF a/neu'r Adran a lle bo'n briodol y Swyddfa Bost a Fujitsu ddarparu ymateb ysgrifenedig i'm hargymhellion erbyn 10 Hydref 202

2. Dylai'r Gweinidog a/neu'r Adran ar y cyd â Swyddfa'r Post wneud cyhoeddiad cyhoeddus yn egluro beth a olygir gan yr ymadrodd *iawndal ariannol llawn a theg*. Dylai esboniad o'r fath ddangos y dylid dyfarnu symiau i hawlwyr sy'n cyfateb i'r hyn y byddent yn ei dderbyn mewn ymgyfreitha sifil a ddygir gerbron barnwr yng Nghymru a Lloegr gan dybio bod y barnwr a glywodd yr hawliad sifil wedi dyfarnu iawndal ar ben uchaf yr ystod briodol o iawndal. Dylai'r esboniad hefyd gynnwys datganiad i'r perwyl, os yw tegwch yn mynnu hynny, y gall gwneuthurwr penderfyniad wyro oddi wrth yr egwyddorion cyfreithiol sefydledig a fyddai fel arfer yn llywodraethu asesiad iawndal mewn ymgyfreitha sifil.

3. Bydd Swyddfa'r Post, yr Adran a'r Gweinidog yn sicrhau bod pob gwneuthurwr penderfyniadau yn HSS, GLOS ac OCS/HCRS yn cymhwyso'r ystyr a roddir i'r geiriau *"llawn a theg"* wrth asesu'r symiau i'w dyfarnu i hawlwyr unigol.

4. Bydd gan bob hawlydd yn HSS hawl i gael cyngor cyfreithiol a ariennir gan yr Adran cyn dewis rhwng derbyn y Cynnig Swm Sefydlog neu geisio iawndal ariannol asesedig. Bydd y tâl am gyngor o'r fath yn unol â graddfa ffioedd sy'n gymesur â'r raddfa sy'n weithredol yn GLOS.

5. Gall unrhyw hawlydd sy'n dewis cael hawliad wedi'i asesu pan gyflwynir yr hawliad i Swyddfa'r Post neu'r Adran benderfynu derbyn y Cynnig Swm Sefydlog ar unrhyw adeg wedi hynny hyd at a chan gynnwys y dyddiad sydd 3 mis calendr ar ôl i'r hawlydd dderbyn cynnig asesedig cyntaf. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, (1) mae'r argymhelliad hwn yn berthnasol i bob cynllun perthnasol h.y.

HSS, OCS/HRCS a GLOS a (2) unwaith y bydd y cyfnod a bennir yn y frawddeg gyntaf o hyn wedi dod i ben ni fydd gan yr hawlydd hawl i dderbyn y Cynnig Swm Sefydlog.

6. Penodir uwch gyfreithiwr cymwys addas i HSS cyn gynted ag y bo'n ymarferol gyda'r nod y bydd unrhyw benodiad o'r fath yn cymryd camau priodol i sicrhau bod cynigion cyntaf i hawlwyr (a) yn *llawn a theg* (b) yn cael eu gwneud i'r rhai sydd wedi cyflwyno hawliadau i Swyddfa'r Post ac sydd i'w hasesu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a (c) yn cael eu gwneud i hawlwyr yn y dyfodol y mae eu hawliadau i'w hasesu o fewn amser rhesymol.

7. Rhoddir pwerau priodol i'r person penodedig i sicrhau y gall gyflawni'r tasgau hyn. Os yw'r awdurdod penodi yn ystyried ei fod yn angenrheidiol, dylai ymgynghori â'r Bwrdd Ymgynghorol, Dentons, Syr Gary Hickinbottom, Syr Ross Cranston a nifer priodol o gynrychiolwyr hawlwyr (yn ogystal â'i gynghorwyr ei hun) cyn penderfynu ar y pwerau priodol.

8. Yn HSS bydd yn rhaid i'r Swyddfa Bost wneud, a bydd yn rhaid i'r Adran gymeradwyo (pan fo angen) cynnig cyntaf i hawlydd nad yw'n llai na'r swm a argymhellir gan y Panel Ymgynghorol Annibynnol.

9. Dylai'r Adran, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Ymgynghorol, cynrychiolwyr yr hawlwyr ac unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae'n eu hystyried yn briodol, ystyried ar frys a ddylid rhoi cyfle i hawlwyr sydd wedi derbyn y Cynnig Swm Sefydlog yn HSS apelio yn erbyn eu derbyniad o gynnig o'r fath os rhoddir caniatâd iddynt wneud hynny. Os cyflwynir hawl i apelio gyda chaniatâd, rhaid i'r mater o ganiatâd i ddilyn apêl o'r fath gael ei ystyried gan berson sy'n gwbl annibynnol ar yr Adran a Swyddfa'r Post.

10. Bydd yr Adran yn cyhoeddi dogfen/cyhoeddiad atodol yn egluro ystyr a bwriad egwyddor y 'cynnig gorau' yn Apêl Cynllun Diffyg Horizon ("HSSA") gan ddangos sut y bwriedir iddo weithredu'n ymarferol gydag enghreifftiau priodol, os ystyrir bod angen.

11. Dylai'r egwyddor 'cynnig gorau' a fydd yn berthnasol yn HSSA, fel yr eglurwyd mewn ymateb i Argymhelliad 10, fod yr un mor berthnasol yn GLOS.

12. Dylid diwygio dogfennau'r cynllun fel bod hawl yn cael ei rhoi i hawlwyr (y gellir ei harfer gan yr hawlwyr eu hunain neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol cydnabyddedig) i wneud cyflwyniadau llafar i gefnogi eu hawliad yn y gwrandawiad a gynullir gan banel annibynnol cyn i'r panel hwnnw wneud penderfyniad rhwymol mewn perthynas â hawliad hawlydd neu ran ohono. Ni ddylai'r amser a roddir i hawlwyr i wneud cyflwyniadau llafar o'r fath yn y gwrandawiad fod yn llai na'r amser a roddir i hawlwyr ar gyfer cyflwyniadau o'r fath yn HSSA.

13. Dylid cau'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau bresennol yn HSS unwaith y bydd pob hawlydd sydd ar hyn o bryd o fewn y Weithdrefn naill ai wedi (a) setlo eu hawliadau neu (b) trosglwyddo i HSSA. Ni ddylai unrhyw hawlydd nad yw yn y Weithdrefn Datrys Anghydfodau pan fydd HSSA yn agor fod yn gymwys i ymuno â'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau.

14. Yn ystod y cyfnod naw mis a roddir i hawlwyr gyflwyno apêl i'r Adran yn HSSA, bydd Swyddfa'r Post yn cymryd rhan mewn trafodaethau a/neu gyfryngu gydag unrhyw hawlydd sy'n hysbysu Swyddfa'r Post o awydd i geisio setliad wedi'i negodi neu ei gyfryngu ar gyfer ei hawliad.

15. Ni fydd unrhyw hawliadau am iawndal ariannol o dan HSS yn cael eu hystyried ar ôl hanner nos 27 Tachwedd 2025.

16. Bydd yr Adran yn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus lle (a) mae'n egluro a fydd unrhyw wahaniaethau yn y broses ar gyfer asesu iawndal ariannol rhwng yr HCRS a'r OCS unedig a'r broses sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn OCS ac, os felly, (b) mae'n egluro beth fydd y gwahaniaethau hynny yn y broses.

17. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, bydd Llywodraeth EF yn sefydlu corff cyhoeddus sefydlog a fydd, pan ofynnir iddo wneud hynny, yn llunio, gweinyddu a chyflawni cynlluniau ar gyfer darparu iawndal ariannol i bersonau sydd wedi cael cam gan gyrff cyhoeddus.

18. Bydd yr Adran yn llunio proses ar gyfer darparu iawndal ariannol i aelodau agos o deuluoedd y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan Horizon. Dim ond os ydynt hwy eu hunain wedi dioddef canlyniadau andwyol difrifol oherwydd eu perthynas deuluol â'r person neu'r personau yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan Horizon y bydd yr aelodau o'r teulu hynny'n gymwys i gael iawndal o'r fath.

19. Bydd yr Adran, Fujitsu a Swyddfa'r Post yn cyhoeddi, naill ai ar wahân neu gyda'i gilydd, adroddiad yn amlinellu unrhyw raglen gyfiawnder adferol y cytunwyd arni a/neu unrhyw gamau a gymerwyd hyd yma i gynhyrchu rhaglen o'r fath.